# Dyfarniad Lefel 3 City & Guilds mewn Pontio i Waith Chwarae (4974-30)

Medi 2021 Fersiwn 1.0

## Llawlyfr Cymhwyster

# Cipolwg ar y Cymhwyster

| | |
|---|---|
| **Maes pwnc** | Plant a Phobl Ifanc |
| **Rhif City & Guilds** | 4974-30 |
| **Grŵp oedran wedi'i gymeradwyo** | 18+ |
| **Gofynion mynediad** | • 2 flynedd o brofiad o ofal plant / profiad addysg a DPP.<br>• Byddai cymhwyster lefel 3 llawn ar sail cymhwysedd mewn addysg neu ofal plant neu gymhwyster hanesyddol mewn 'addysg neu ofal plant' yn cwmpasu'r Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant, Cefnogi Addysgu a Dysgu, Gwaith Ieuenctid, Ysgolion Coedwig.<br>Neu<br>• cymhwyster llawn Lefel 3 arall wedi'i reoleiddio ar sail cymhwysedd sy'n cydnabod gallu dysgwyr i weithio gyda phlant yn absenoldeb eu rhieni / rhoddwyr gofal, e.e. gofal plant preswyl/ gofal cymdeithasol gyda phlant / chwaraeon. |
| **Asesiad** | Portffolio o dystiolaeth. |
| **Cymeradwyaethau** | Cymeradwyaeth awtomatig ar gael. |
| **Cofrestru ac ardystio** | Gweler y Walled Garden/Catalog Ar-lein ar gyfer y dyddiadau olaf. |

| Teitl a lefel | Rhif City &guilds | Rhif achredu |
|---|---|---|
| Dyfarniad Lefel 3 City & Guilds mewn Pontio i Waith Chwarae | 4974-30 | 603/7742/2 |

| Fersiwn a dyddiad | Newid manylion | Adran |
|---|---|---|
| Medi 2021 v1 | Cyhoeddwyd 1af | |

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| **Cipolwg ar y cymhwyster** | | **2** |
| **Cynnwys** | | **3** |
| **1 Cyflwyniad** | | **4** |
| | Strwythur | 5 |
| **2 Gofynion y ganolfan** | | **6** |
| | Cymeradwyaeth | 6 |
| | Gofynion adnoddau | 6 |
| | Gofynion mynediad i ddysgwyr | 7 |
| | Diogelu data, cyfrinachedd a gofynion cyfreithiol | 8 |
| **3 Cyflwyno'r cymhwyster** | | **10** |
| | Asesiad cychwynnol a sefydlu | 10 |
| **4 Asesiad** | | **11** |
| **5 Unedau** | | **13** |
| **Uned 300** | **Dealltwriaeth gweithiwr chwarae o chwarae** | **14** |
| | Arweiniad | 16 |
| **Uned 301** | **Gwaith chwarae wrth ymarfer** | **17** |
| | Arweiniad | 19 |
| **Uned 302** | **Gwaith chwarae yn y cyd-destun ehangach** | **21** |
| | Arweiniad | 23 |
| **Atodiad 1** | **Adnoddau gwybodaeth gyffredinol** | **25** |

# 1 Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn dweud wrthych beth sydd angen i chi ei wneud i gyflawni'r cymhwyster:

| Maes | Disgrifiad |
|---|---|
| Ar gyfer pwy mae'r cymhwyster? | Mae'r cymhwyster hwn yn cefnogi dilyniant dysgwyr sydd wedi cwblhau cymhwyster Blynyddoedd Cynnar ac a hoffai weithio mewn lleoliadau gwaith chwarae neu sy'n ceisio croesawu dull gwaith chwarae yn eu lleoliad presennol. Mae'n cael ei gydnabod gan reoleiddwyr y gweithlu yn hyn o beth.<br><br>Y gynulleidfa darged sylfaenol yw dysgwyr sydd eisoes wedi ennill cymhwyster rheoleiddiedig lefel 3 naill ai mewn Dysgu a Datblygu Gofal Plant, Gweithlu Plant a Phobl Ifanc neu Addysgwr Blynyddoedd Cynnar. Bydd cymwysterau Lefel 3 mewn Gwaith Ieuenctid, Gofal Cymdeithasol Plant a Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant hefyd yn bodloni'r gofynion mynediad i gymwysterau ar gyfer y cymhwyster hwn<br><br>Bydd hefyd yn cefnogi dysgwyr y gallai fod angen iddynt ymestyn eu gwybodaeth a'u sgiliau mewn perthynas â gwaith chwarae i gefnogi darpariaeth estynedig a gynigir gan eu cyflogwr presennol neu i roi cyfleoedd ychwanegol iddynt eu hunain o fewn gwaith chwarae. |
| Beth mae'r cymhwyster yn ei gynnwys? | Nod Dyfarniad Lefel 3 City & Guilds mewn Pontio i Waith Chwarae yw darparu dealltwriaeth o Egwyddorion a damcaniaethau Gwaith Chwarae sy'n sail i ymarfer gwaith chwarae i ddysgwyr sydd â phrofiad ac sydd â chymwysterau ar lefel 3 wrth weithio gyda phlant.<br><br>Nod y cymhwyster hefyd yw ymdrin â sut mae cymhwyso Egwyddorion a damcaniaethau Gwaith Chwarae yn darparu fframwaith sy'n galluogi ac yn cefnogi chwarae plant a'u datblygiad cyffredinol. Mae hefyd yn cynnig cyfle i fyfyrio ar arfer y dysgwr ei hun ac yn cefnogi dilyniant i gymwysterau gwaith chwarae sy'n seiliedig ar gymhwysedd. |
| Pa gyfleoedd ar gyfer dilyniant sydd ar gael? | Maent yn caniatáu i ddysgwyr symud ymlaen i gyflogaeth neu i'r cymwysterau City & Guilds canlynol:<br>• Diploma Lefel 3 4964-03 mewn Gwaith Chwarae (NVQ)<br>• Diploma Lefel 5 4964-05 mewn Gwaith Chwarae |
| Gyda phwy y gwnaethom ddatblygu'r cymhwyster? | Datblygwyd y cymhwyster gyda chyfranogiad gan:<br>• Chwarae Cymru<br>• Bwrdd chwarae Gogledd Iwerddon<br>• Sefydliad Gwaith Chwarae<br>• Clybiau Plant Cymru<br>• Gofal Cymdeithasol Cymru<br>• Agored Cymru |

| | |
|---|---|
| | • NCFE CACHE |
| A yw'n rhan o fframwaith neu fenter brentisiaethau? | Bydd yn disodli'r cymhwyster Dyfarniad Pontio presennol mewn Gwaith Chwarae (o'r Blynyddoedd Cynnar) yng nghymhwyster Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant Manyleb Safonau Prentisiaethau Cymru (SASW) fel cymhwyster dewisol cyflogwr. |

## Adeiladwaith

Er mwyn cyflawni Dyfarniad Lefel 3 City & Guilds mewn Pontio i Waith Chwarae, rhaid i ddysgwyr gyflawni'r tair uned orfodol (300, 301, 302)

| Dyfarniad Lefel 3 City & Guilds mewn Pontio i Waith Chwarae | | | |
|---|---|---|---|
| **Rhif uned City &guilds** | **Teitl yr uned** | **Gwerth Credyd** | **ODDA** |
| **Unedau Gorfodol** | | | |
| 300 | Dealltwriaeth gweithiwr chwarae o chwarae | 2 | 9 |
| 301 | Gwaith chwarae yn ymarferol | 3 | 12 |
| 302 | Gwaith chwarae yn y cyd-destun ehangach | 3 | 15 |

## Cyfanswm Amser y Cymhwyster

Cyfanswm Amser y Cymhwyster (CAC/TQT) yw nifer yr oriau tybiannol sy'n cynrychioli amcangyfrif o gyfanswm yr amser y gellid disgwyl yn rhesymol i ddysgwr ei gyflawni a dangos cyflawniad lefel y cyrhaeddiad sy'n angenrheidiol ar gyfer dyfarnu cymhwyster.

Mae CAC yn cynnwys y ddwy elfen ganlynol:

- Nifer yr oriau y mae sefydliad dyfarnu wedi'u neilltuo i gymhwyster ar gyfer Dysgu Dan Arweiniad, a
- Amcangyfrif o nifer yr oriau y bydd dysgwr yn rhesymol debygol o'u gwario wrth baratoi, astudio neu unrhyw fath arall o gymryd rhan mewn addysg neu hyfforddiant, gan gynnwys asesu, sy'n digwydd yn unol â chyfarwyddyd - ond, yn wahanol i ddysgu dan arweiniad, nid o dan arweiniad neu oruchwyliaeth uniongyrchol - darlithydd, goruchwyliwr, tiwtor neu ddarparwr addysg neu hyfforddiant priodol arall

| Teitl a lefel | ODDA | CAC |
|---|---|---|
| Dyfarniad Lefel 3 City & Guilds mewn Pontio i Waith Chwarae | 36 | 80 |

# 2 Gofynion y ganolfan

## Cymeradwyaeth

Os yw eich canolfan wedi ei chymeradwyo i gynnig unrhyw un o'r cymwysterau canlynol:

- Dyfarniad Lefel 3 4964-30 mewn Pontio i Waith Chwarae (O'r Blynyddoedd Cynnar)
- Diploma Lefel 3 4964-03 mewn Gwaith Chwarae (NVQ)
- Diploma Lefel 5 4964-05 mewn Gwaith Chwarae

cewch gymeradwyaeth awtomatig ar gyfer **4974-30 Dyfarniad Lefel 3 City & Guilds mewn Pontio i Waith Chwarae.**

Er mwyn cynnig y cymhwyster hwn, bydd angen i ganolfannau sy'n newydd i waith chwarae ennill cymeradwyaeth cymhwyster. Cyfeiriwch at *Lawlyfr Canolfan City & Guilds* i gael rhagor o wybodaeth. Dylai staff y Ganolfan ymgyfarwyddo â strwythur, cynnwys a gofynion asesu'r cymhwyster cyn cynllunio rhaglen cwrs.

## Gofynion adnoddau

### Staffio'r ganolfan

Rhaid i staff sy'n cyflawni'r cymhwyster hwn allu dangos eu bod yn bodloni'r gofynion arbenigedd galwedigaethol canlynol. Dylent:

- bod yn gymwys yn alwedigaethol neu'n dechnegol wybodus yn y meysydd y maent yn darparu hyfforddiant ar eu cyfer a/neu sydd â phrofiad o ddarparu hyfforddiant. Rhaid i'r wybodaeth hon fod i'r un lefel â'r hyfforddiant sy'n cael ei ddarparu
- meddu ar brofiad perthnasol diweddar yn y maes penodol y byddant yn asesu
- meddu ar brofiad credadwy o ddarparu hyfforddiant.

Gall staff y ganolfan ymgymryd â mwy nag un rôl, e.e. tiwtor ac aseswr neu sicrhawr ansawdd mewnol, ond ni allant wirio eu hasesiadau eu hunain yn fewnol.

**Gofynion Aseswyr**

- Wedi gweithio gyda phlant a phobl ifanc fel gweithiwr chwarae ar lefel y cymhwyster hwn neu'n uwch mewn lleoliadau nad ydynt yn gwrthdaro ag Egwyddorion Gwaith Chwarae ac ethos gwaith chwarae.

- Dangos profiad, gwybodaeth a sgiliau gwaith chwarae ymarferol sydd eu hangen i lunio barn gywir am gymhwysedd pobl eraill. Rhaid i hyn fod drwy gyfrif ysgrifenedig sy'n rhoi manylion: -
    - Eu profiad gwaith chwarae – ble, beth a phryd
    - Eu gwybodaeth ymarferol am yr Egwyddorion Gwaith Chwarae a theori gwaith chwarae (gan gynnwys y cylch chwarae, mathau o chwarae, arddulliau ymyrryd, asesu manteision a risg ac arfer myfyriol)
    - Eu dealltwriaeth o rôl y gweithiwr chwarae (yn hytrach nag addysgwr neu weithiwr ieuenctid blynyddoedd cynnar) a pha sgiliau sydd eu hangen ar y rôl hon o ran:
        - i) meithrin perthynas â phlant,
        - ii) creu mannau chwarae a

iii) cefnogi chwarae.

- Wedi cymryd rhan weithredol a chyson mewn proses o ddatblygiad proffesiynol parhaus cyfredol a pherthnasol i gael y wybodaeth ddiweddaraf am yr arferion gwaith chwarae gorau. Rhaid i gyfrif myfyriol neu gofnodion myfyriol a ddefnyddir i ddangos DPP ddangos tystiolaeth o hyn (dylai hyn gynnwys gwaith chwarae wyneb yn wyneb, mynychu diwrnodau hyfforddi sector, seminarau a chynadleddau, hyfforddiant a darllen).

- Wedi gweithio neu ar hyn o bryd yn hyfforddi fel asesydd gwaith chwarae a/neu hyfforddwr gwaith chwarae, gan roi manylion ynghylch pryd a ble a disgrifio beth yw'r sgiliau penodol sydd eu hangen ar gyfer y rolau hyn a pham.

- Wedi cyflawni hyfforddiant cydnabyddedig a/neu gymhwyster asesu.

**Meini prawf dymunol**

- Wedi cyflawni neu fod yn gweithio tuag at gymhwyster gwaith chwarae cydnabyddedig ar fframwaith cymwysterau cyfredol neu hanesyddol yn y DU.

**Gofynion Sicrhawyr Ansawdd Mewnol**

- Mae angen i SAM/IQA fodloni gofynion y datganiad uchod ar gymhwysedd galwedigaethol aseswyr.
- Cymhwyster SAM cydnabyddedig neu mewn hyfforddiant cyfredol. Rhaid i SAMau feddu ar y cymwysterau Sicrhawyr Ansawdd Mewnol priodol fel y'u cymeradwywyd a'u pennu gan yr awdurdodau rheoleiddio o fewn yr amserlenni gofynnol ar gyfer dechrau eu rôl.

Gall yr un person ymgymryd â dwy neu fwy o'r rolau a gyflawnir mewn canolfannau. Fodd bynnag, ni all SAMau sydd hefyd yn gweithredu fel aseswyr sicrhau ansawdd eu hasesiadau eu hunain yn fewnol.

Gweler atodiad 4: **centre-manual-pdf.ashx (cityandguilds.com) am wybodaeth fanylach.**

## Gofynion mynediad i ddysgwyr

Y gofynion mynediad yw:

- 2 flynedd o brofiad o ofal plant / profa addysg a DPP.
- Byddai cymhwyster lefel 3 llawn mewn addysg neu ofal plant neu gymhwyster hanesyddol mewn 'addysg neu ofal plant' yn cwmpasu'r Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant, Cefnogi Addysgu a Dysgu, Gwaith Ieuenctid, Ysgolion Coedwig.

  Neu
- cymhwyster llawn arall a reoleiddir yn seiliedig ar gymhwyster Lefel 3 ar sail cymhwysedd sy'n cydnabod gallu dysgwyr i weithio gyda phlant yn absenoldeb eu rhieni / rhoddwyr gofal. e.e. gofal plant preswyl/ gofal cymdeithasol gyda phlant / chwaraeon.

### Cyfyngiadau oedran

Ni all City & Guilds dderbyn unrhyw gofrestriadau ar gyfer dysgwyr o dan 18 oed gan nad yw'r cymhwyster hwn wedi'i gymeradwyo ar gyfer plant dan 18 oed.

Mae cyfyngiadau'n berthnasol i ddysgwyr dan 18 oed sy'n gweithio heb oruchwyliaeth gyda phlant. Dylai canolfannau a dysgwyr fod yn gwbl ymwybodol o'r gofynion oedran gofynnol yn eu cenedl gartref ac unrhyw oblygiadau ar gyfer cwblhau asesiadau.

## Diogelu data, cyfrinachedd a gofynion cyfreithiol

Ni ddylid anwybyddu diogelu data a chyfrinachedd wrth gynllunio'r broses o gyflwyno'r cymhwyster hwn.

#### *Cofnodion cyfrinachol a ddefnyddir fel tystiolaeth*

Gall dysgwyr ddyfynnu cofnodion cyfrinachol yn briodol fel tystiolaeth yn eu cymhwyster cyn belled â bod y rhiant, neu ei eiriolwr, wedi rhoi caniatâd ysgrifenedig a gwybodus i gofnodion gael eu defnyddio at y diben hwn. Lle y bo'n briodol, dylai dysgwyr ofyn am ganiatâd gan blant unigol a pharchu hawl y plentyn i wrthod.

Ni ddylid byth gynnwys cofnodion cyfrinachol ym mhortffolio tystiolaeth dysgwyr a dylid eu harchwilio yn y fan a'r lle gan yr asesydd cymwys, sy'n gymwys yn alwedigaethol. Dylai aseswyr/dysgwyr ddisgrifio a chofnodi pa dystiolaeth a ddarparwyd a lle mae'r dystiolaeth wedi'i lleoli.

Efallai y bydd y Sicrhawr Ansawdd Allanol (SAA/EQA) am drafod tystiolaeth o'r fath gyda'r ganolfan fel rhan o'r broses ddilysu ond ni fyddai fel arfer yn gofyn am weld cofnodion cyfrinachol.

Fodd bynnag, os digwydd bod gan y SAA bryderon am ansawdd tystiolaeth o'r fath, bydd, ar ôl trafod a chytuno â thîm ansawdd City & Guilds, yn rhoi gwybod i reolwyr y ganolfan am ei bryder. Gall hefyd ofyn am ganiatâd i gael mynediad at gofnodion o'r fath gan y sefydliad sy'n gyfrifol am gadw'r cofnodion cyfrinachol penodol dan sylw yn ddiogel.

#### *Delweddau o rai o dan oed yn cael eu defnyddio fel tystiolaeth*

Defnyddir ffotograffau a recordiadau fideo neu electronig eraill yn aml mewn lleoliadau i gefnogi'r broses asesu plant ac i ddathlu profiadau a chyflawniadau plant. Dylid trin ffotograffau a fideo/cofnodi bob amser fel cofnod cyfrinachol ac, yn ôl dewis*, eu gadael yn y fan a'r lle yn y lleoliad Gwaith Chwarae ac ni ddylid eu rhoi yn y portffolio o dystiolaeth. Rhaid i ymgeiswyr ofyn am ganiatâd cyn cyfeirio at ffotograffau a/neu ddelweddau eraill (recordiadau fideo/electronig) yn eu cofnodion asesu ac ni ddylid defnyddio delweddau'n amhriodol (e.e. i ymgorffori/addurno portffolio). Rhaid i diwtor/aseswyr sicrhau bod caniatâd wedi'i sicrhau cyn derbyn tystiolaeth o'r fath a chyn gweld delweddau yn y fan a'r lle.

Drwy gydol y daith asesu, rhaid i ganolfannau geisio diogelu preifatrwydd plant a sicrhau eu bod yn bodloni gofynion ymarfer amddiffyn plant yn llawn. Os cyfeirir at fideos neu ffotograffau o rai o dan oed (y rhai o dan 18 oed) fel rhan o'r broses asesu, mae gan y ganolfan a'r ymgeisydd gyfrifoldebau a rennir sy'n ymwneud â deddfwriaeth amddiffyn plant.

Cyfrifoldeb y ganolfan yw rhoi gwybod i'r ymgeisydd am yr angen i gael caniatâd ysgrifenedig gan riant/gwarcheidwad y rhai o dan oed. Rhaid i hyn fod ar waith cyn cyfeirio at ddelweddau mewn cofnodion asesu a chyn y gall tiwtor/aseswyr weld arddangosfeydd gweledol a chofnodion/adroddiadau darluniadol.

Rhaid i ganolfannau asesu hefyd sicrhau bod gan yr holl staff asesu gymwysterau priodol a'u cymeradwyo'n i weithio'n agos at blant a chael mynediad atynt. Wrth ofyn am ganiatâd i gyfeirio at ddelweddau plant fel rhan o'r broses asesu, rhaid i ymgeiswyr a chanolfannau sicrhau bod gwybodaeth glir wedi'i rhannu mewn perthynas â:

- rhesymau dros gyfeirio at ffotograffau neu recordiadau fideo a chyfyngiadau arnynt fel tystiolaeth
- cyfnod o amser y gallai fod angen i'r ffotograffau neu recordiadau fideo gael eu cadw gan y lleoliad er mwyn hwyluso'r broses asesu
- gofyniad bod yr ymgeisydd a'r ganolfan yn parchu rhwymedigaeth y lleoliad i gadw ffotograffau neu recordiadau fideo yn ddiogel rhag mynediad heb awdurdod
- gofyniad bod yr ymgeisydd a'r ganolfan yn parchu rhwymedigaeth lleoliadau i ddarparu gofyniad storio electronig diogel o ffotograffau neu recordiadau fideo.

*Mae City & Guilds yn cydnabod y rôl gynyddol y mae cyfryngau cymdeithasol a thechnolegau yn ei chwarae mewn gweithgareddau neu ymarfer bob dydd, e.e. cyfnodolyn dysgu Tapestri ar-lein, a bod e-bortffolios yn rhan o arfer asesu modern. O'i gyfuno, gall hyn gyflwyno heriau penodol i ganolfannau o ran cyfrinachedd, cadw'n ddienw, seiber-ddiogelwch a diogelu data. O dan yr amgylchiadau hyn, rhaid i ganolfannau sicrhau bod y cyflogwr a theuluoedd/gofalwyr wedi rhoi caniatâd gwybodus yn benodol mewn perthynas â chynnwys arsylwadau plant a gofnodir yn ddigidol o fewn e-bortffolio. Rhaid i ganolfannau ddangos bod y system e-bortffolio a ddefnyddir yn cynnwys mesurau diogelu digon cadarn o ran protocolau storio data a mynediad; a'u bod yn cael eu cynnal i fodloni safonau GDPR.

Mae'r ystyriaethau cyfreithiol canlynol yn berthnasol i'r cymhwyster hwn:

- Gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG/DBS) mewn perthynas â gweithio gyda phlant. Dylai'r gwiriadau hyn fod ar y lefel briodol i fodloni gofynion rheoleiddwyr gwasanaeth.

Mynediad Gogledd Iwerddon / Access NI

***Gofynion fetio ar gyfer y rhai sy'n gweithio neu ar leoliad galwedigaethol o fewn darpariaeth gofal plant a reoleiddir yng Ngogledd Iwerddon***

Cyn i'r gwaith neu'r lleoliad ddechrau, rhaid i ddysgwyr gael Datgeliad Ehangach gyda gwiriadau fetio rhestr wahardd gan ddefnyddio'r prosesau Access NI. Rhaid i hyn gael ei gwblhau'n llawn, a'i gytuno gan yr Ymddiriedolaeth berthnasol, a fydd yn cyhoeddi Llythyr Clirio Fetio i naill ai'r lleoliad gwaith neu i'r darparwr addysgol. Noder mai dim ond os yw'r gweithle neu'r lleoliad yn gorff cofrestredig gydag Access NI y gellir gofyn am Ddatgeliad Ehangach. Dim ond os oes ganddynt rif adnabod personol (PIN) gan ddarparwr cofrestredig y gall unigolion wneud cais i AccessNI.

Mae'r broses fetio lawn nid yn unig yn cyfeirio at wiriadau cofnodion troseddol ond mae'n cynnwys geirdaon meddygol, cyflogaeth a geirdaon personol a gwiriadau'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Bydd fetio'n cael ei gynnal yn unol â'r Weithdrefn Fetio Ranbarthol y cytunwyd arni. I gael manylion llawn am y broses fetio, cyfeiriwch at **ddogfen VET/1 Gweithdrefn Fetio Gwarchod Plant a Gofal Dydd** sydd ar gael gan bob Ymddiriedolaeth. Mae rhagor o wybodaeth am y broses Access NI ar gael **yma**

# 3 Cyflwyno'r cymhwyster

## Asesiad cychwynnol a sefydlu

Dylid gwneud asesiad cychwynnol o bob dysgwr cyn dechrau ei raglen i nodi:

- a oes gan y dysgwr unrhyw anghenion hyfforddi penodol,
- cymorth ac arweiniad y gallai fod eu hangen arnynt wrth weithio tuag at eu cymwysterau.
- unrhyw unedau y maent eisoes wedi'u cwblhau, neu gredyd y maent wedi'i gronni sy'n berthnasol i'r cymwysterau.
- y math a'r lefel briodol o gymhwyster.

Rydym yn argymell bod canolfannau'n darparu rhaglen sefydlu fel bod y dysgwr yn deall gofynion y cymhwyster yn llawn, eu cyfrifoldebau fel dysgwr ac ymgeisydd, a chyfrifoldebau'r ganolfan. Gellir cofnodi'r wybodaeth hon ar gontract dysgu.

### Cofnodi dogfennau

Gall dysgwyr a chanolfannau benderfynu defnyddio dull papur neu electronig o gofnodi tystiolaeth.

Mae City & Guilds yn cymeradwyo nifer o systemau ePortfolio, gan gynnwys ein **Cynorthwy-ydd Dysgu** ein hunain, offeryn ar-lein hawdd ei ddefnyddio a diogel i gefnogi a dangos tystiolaeth o gynnydd dysgwyr tuag at ennill cymwysterau. Mae rhagor o fanylion ar gael yn **www.cityandguilds.com/eportfolios**.

Mae City & Guilds wedi datblygu cyfres o *Ffurflenni Cofnodi* gan gynnwys enghreifftiau o ffurflenni wedi'u cwblhau, i ganolfannau newydd a phresennol eu defnyddio fel y bo'n briodol. Mae *Ffurflenni Cofnodi* ar gael ar wefan City & Guilds.

Er y disgwylir i ganolfannau newydd ddefnyddio'r ffurflenni hyn, gall canolfannau ddyfeisio neu addasu ffurflenni amgen, y mae'n rhaid i'r sicrhawr ansawdd allanol eu cymeradwyo i'w defnyddio, cyn iddynt gael eu defnyddio gan ddysgwyr ac aseswyr yn y ganolfan. Mae fersiynau y gellir eu diwygio (MS Word) o'r ffurflenni ar gael ar wefan City & Guilds.

# 4 Asesu

## Strategaeth asesu

Asesir Gwobr Lefel 3 City & Guilds mewn Pontio i Waith Chwarae (4974-30) gan bortffolio o dystiolaeth. Caiff y dysgwr ei fesur yn erbyn deilliannau dysgu a meini prawf asesu a ddisgrifir ym mhob uned o'r cymhwyster. Rhaid i'r dysgwr fodloni'r holl ddeilliannau dysgu a meini prawf asesu yn yr unedau a bodloni'r rheolau cyfuno er mwyn gallu dyfarnu'r cymhwyster. Rhaid dangos tystiolaeth o'r holl feini prawf asesu ac anogir dull cyfannol o asesu.

Rhaid i ganolfannau gynnal asesiad cychwynnol cadarn i sicrhau bod y dysgwr yn cael cyfle i ddarparu tystiolaeth yn erbyn holl ofynion y cymhwyster.

Rhaid i benderfyniadau asesu ar gyfer deilliannau dysgu seiliedig ar sgiliau (e.e. y rhai sy'n dechrau gyda 'gallu') gael eu gwneud mewn amgylchedd gwaith go iawn gan asesydd sy'n gymwys yn alwedigaethol.

Gall asesu Canlyniadau Dysgu seiliedig ar wybodaeth (e.e. y rhai sy'n dechrau gyda 'gwybod' neu 'ddeall') ddigwydd mewn amgylchedd gwaith go iawn neu'r tu allan iddo, ond rhaid i'r penderfyniad asesu terfynol ddangos bod gwybodaeth yn cael ei chymhwyso o fewn yr amgylchedd gwaith go iawn.

Rhaid i'r dystiolaeth, bob amser, adlewyrchu polisïau a gweithdrefnau'r gweithle fel y'u llywir gan y ddeddfwriaeth gyfredol, y safonau gwasanaeth perthnasol a'r codau ymarfer ar gyfer y sector.

Ni ddylid cynnwys cofnodion cyfrinachol ym mhortffolios dysgwyr ond rhaid cyfeirio atynt yn y cofnodion asesu. Ni ddylid defnyddio fideo na recordio sain lle mae hyn yn peryglu preifatrwydd, urddas neu gyfrinachedd unrhyw unigolyn neu deulu sy'n defnyddio'r gwasanaethau.

Gall rôl yr aseswr fod yn rhan o rôl ehangach o fewn adran hyfforddi sefydliad. Os nad yw'r asesydd yn gymwys yn alwedigaethol mewn maes arbenigol, gellir defnyddio tystion arbenigol i arsylwi'n uniongyrchol.

Dylai'r asesydd benderfynu ar y defnydd o dystion arbenigol a chytuno arno. Rhaid i dyst arbenigol:

- meddu ar wybodaeth ymarferol am yr unedau y maent yn darparu tystiolaeth arbenigol ar eu cyfer
- fod yn gymwys yn alwedigaethol yn y maes y maent yn darparu tystiolaeth arbenigol ar ei gyfer
- meddu ar **NAILL AI** unrhyw gymhwyster mewn asesu perfformiad yn y gweithle **NEU** rôl waith sy'n cynnwys gwerthuso arfer bob dydd y staff.

Gellir defnyddio tystion arbenigol hefyd i arsylwi'n uniongyrchol lle:

- mae ganddynt arbenigedd galwedigaethol ar gyfer meysydd arbenigol, neu
- mae'r arsylwi o natur arbennig o sensitif
- meddu ar unrhyw gymhwyster sy'n cynnwys asesu perfformiad yn y gweithle a/neu rôl gwaith proffesiynol sy'n cynnwys gwerthuso arfer bob dydd staff

## Egwyddorion Gwaith Chwarae

Mae'r Egwyddorion hyn yn sefydlu'r fframwaith proffesiynol a moesegol ar gyfer gwaith chwarae ac felly mae'n rhaid eu hystyried yn gyfan. Maent yn disgrifio'r hyn sy'n unigryw am chwarae a gwaith chwarae ac yn darparu'r safbwynt gwaith chwarae ar gyfer gweithio gyda phlant a phobl ifanc. Maent yn seiliedig ar y gydnabyddiaeth y bydd gallu plant a phobl ifanc i ddatblygu'n gadarnhaol yn cael ei wella os rhoddir mynediad iddynt i'r ystod ehangaf o amgylcheddau a chyfleoedd chwarae.

1. Mae angen i bob plentyn a pherson ifanc chwarae. Mae'r ysfa i chwarae’n gynhenid. Mae chwarae'n anghenraid biolegol, seicolegol a chymdeithasol, ac mae'n hanfodol i ddatblygiad a lles iach unigolion a chymunedau.
2. Mae chwarae yn broses sy'n cael ei dewis yn rhydd, ei chyfarwyddo'n bersonol a'i hysgogi'n gynhenid. Hynny yw, mae plant a phobl ifanc yn pennu ac yn rheoli cynnwys a bwriad eu chwarae, drwy ddilyn eu greddf, eu syniadau a'u diddordebau eu hunain, yn eu ffordd eu hunain am eu rhesymau eu hunain.
3. Prif ffocws a hanfod gwaith chwarae yw cefnogi a hwyluso'r broses chwarae a dylai hyn lywio'r gwaith o ddatblygu polisi, strategaeth, hyfforddiant ac addysg chwarae.
4. I weithwyr chwarae, mae'r broses chwarae yn cael blaenoriaeth ac mae gweithwyr chwarae yn gweithredu fel eiriolwyr dros chwarae wrth ymgysylltu ag agendâu a arweinir gan oedolion.
5. Rôl y gweithiwr chwarae yw cefnogi pob plentyn a pherson ifanc i greu lle y gallant chwarae ynddo.
6. Mae ymateb y gweithiwr chwarae i blant a phobl ifanc sy'n chwarae yn seiliedig ar wybodaeth gyfredol am y broses chwarae, ac arfer myfyriol.
7. Mae gweithwyr chwarae yn cydnabod eu heffaith eu hunain ar y gofod chwarae a hefyd effaith chwarae plant a phobl ifanc ar y gweithiwr chwarae.
8. Mae gweithwyr chwarae yn dewis arddull ymyrraeth sy'n galluogi plant a phobl ifanc i ymestyn eu chwarae. Rhaid i bob ymyriad gweithiwr chwarae gydbwyso risg â budd datblygiadol a lles plant.

Cedwir yr Egwyddorion Gwaith Chwarae mewn ymddiriedolaeth ar gyfer proffesiwn gwaith chwarae'r DU gan y **Grŵp Craffu <https://www.playwales.org.uk/eng/scrutinygroup>** a weithredodd fel brocer gonest yn goruchwylio'r ymgynghoriadau y cawsant eu datblygu drwyddynt.

### Cydnabod dysgu blaenorol (CDB/RPL)

Mae cydnabod dysgu blaenorol yn golygu defnyddio profiad neu gymwysterau blaenorol unigolyn sydd eisoes wedi'u cyflawni i gyfrannu at gymhwyster newydd.

Caniateir CDB ac mae hefyd yn benodol i'r sector mewn perthynas â'r gwaith yn uniongyrchol gyda phlant yng nghyd-destun chwarae. Fodd bynnag, dylid cynhyrchu'r rhan fwyaf o'r dystiolaeth o fewn y cyfnod cofrestru ar gyfer y cymhwyster hwn.

## Graddio

Mae'r cymhwyster hwn wedi'i raddio'n Llwyddo/Methu yn unig.

# 5 Unedau

## Argaeledd unedau

Mae'r holl unedau i'w gweld yn y ddogfen hon.

## Strwythur yr unedau

Mae gan yr unedau hyn y canlynol:

- Cyfeirnod City & Guilds
- Teitl
- Lefel
- Credydau
- Oriau dysgu dan arweiniad (ODDA)
- Perthynas â SGC
- Nod yr uned
- Math o asesiad
- Canlyniadau dysgu, sy'n cynnwys nifer o feini prawf asesu
- Canllawiau asesu ychwanegol

## Unedau

Mae'r cymhwyster hwn yn cynnwys tair uned. Mae uned yn disgrifio'r hyn a ddisgwylir gan berson cymwys ar ôl ei gwblhau.

Mae pob uned wedi'i rhannu'n ganlyniadau dysgu sy'n disgrifio'n fanylach y sgiliau a'r wybodaeth y dylai ymgeisydd eu meddu.

Mae gan bob canlyniad dysgu set o feini prawf asesu (perfformiad, a gwybodaeth a dealltwriaeth) sy'n nodi'r meini prawf a ddymunir y mae'n rhaid eu bodloni cyn y gellir dweud bod unigolyn wedi perfformio i'r safon y cytunwyd arni. Mae'r gofynion ymarferol a gwybodaeth o'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol wedi'u mapio i bob maen prawf asesu.

# Uned 300 Dealltwriaeth gweithiwr chwarae o chwarae

| | |
|---|---|
| **Lefel:** | 3 |
| **Gwerth credyd:** | 2 |
| **ODDA:** | 9 |
| **Nod:** | Mae'r uned hon yn archwilio'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth o beth yw chwarae a phwysigrwydd chwarae ym mywydau plant. |
| **Math o asesiad:** | Portffolio |

## Canlyniad dysgu:

Bydd y dysgwr yn:

1 deall chwarae plant o safbwynt gwaith chwarae

## Meini prawf asesu

Mae’r dysgwr yn gallu:

1.1 esbonio beth a olygir gan chwarae a ddewisir yn rhydd, wedi'i arwain yn bersonol ac wedi'i ysgogi'n gynhenid

1.2 esbonio pam mae chwarae'n anghenraid biolegol, seicolegol a chymdeithasol

1.3 esbonio sut mae chwarae'n hanfodol i ddatblygiad iach a lles unigolion a chymunedau

## Canlyniad dysgu

Bydd y dysgwr yn:

2 deall hawl plant i chwarae

## Meini prawf asesu

Mae’r dysgwr yn gallu:

2.1 nodi erthyglau perthnasol o **CCUHP/UNCRC** mewn perthynas â chwarae

2.2 esbonio sut mae Sylw Cyffredinol 17 yn cefnogi'r dull gwaith chwarae

2.3 disgrifio pam mae hi’n bwysig i bolisïau a gweithdrefnau adlewyrchu hawl y plentyn i chwarae

## Canlyniad dysgu

Bydd y dysgwr yn:

3 deall cyfleoedd i chwarae yn y gymuned

## Meini prawf asesu

Mae'r dysgwr yn gallu:

3.1 dadansoddi ystod o gyfleoedd chwarae yn y gymuned

3.2 dadansoddi ystod o rwystrau i chwarae yn y gymuned

## Uned 300 Dealltwriaeth gweithiwr chwarae o chwarae

Gwybodaeth Ategol

### *Arweiniad*

**Cyflwyno ac asesu**

Mae'r term 'plant' yn cwmpasu pob plentyn a pherson ifanc rhwng 0 a 18 oed yn unol â deddfwriaeth genedlaethol a rhyngwladol.

2.1 Rhaid nodi o leiaf 3 erthygl

3.1 Dylid archwilio o leiaf 3 chyfle chwarae

3.2 Rhaid rhoi o leiaf 3 enghraifft
Gallai ffactorau fod yn agweddau cymdeithasol, amgylcheddol, deddfwriaethol, y gymuned neu'n economaidd. Dylai dysgwyr hefyd wneud awgrymiadau i fynd i'r afael â rhwystrau i wella mynediad.

**Rhestr termau**

2.1 **CCUHP** – Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

**Mapio SGC**

SKAPW50
Creu lleoliadau sy'n cefnogi chwarae hunanarweiniol a ddewisir yn rhydd

SKAPW53
Cyfrannu at iechyd, diogelwch a lles plant a phobl ifanc yn y lleoliad gwaith chwarae

SKAPW68
Cyfrannu at ddatblygu ac adolygu polisïau a gweithdrefnau sy'n ymwneud â hawliau plant a phobl ifanc

SKAPW75
Datblygu ac adolygu polisïau a gweithdrefnau sy'n ymwneud â hawliau plant a phobl ifanc

SKAPW93
Rheoli, datblygu ac adolygu darpariaeth chwarae

# Uned 301 Gwaith chwarae wrth ymarfer

| | |
|---|---|
| **Lefel:** | 3 |
| **Gwerth credyd:** | 3 |
| **ODDA:** | 12 |
| **Nod:** | Mae'r uned hon yn archwilio'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i ddefnyddio'r dull gwaith chwarae wrth ymarfer. |
| **Math o asesiad:** | Portffolio |

---

## Canlyniad dysgu:

Bydd y dysgwr yn:

1. deall Egwyddorion Gwaith Chwarae

## Meini prawf asesu

Mae'r dysgwr yn gallu:

1.1 crynhoi Egwyddorion Gwaith Chwarae a'u diben

1.2 esbonio sut mae Egwyddorion Gwaith Chwarae yn cefnogi'r broses gwaith chwarae

---

## Canlyniad dysgu

Bydd y dysgwr yn:

2. deall damcaniaethau gwaith chwarae

## Meini prawf asesu

Mae'r dysgwr yn gallu:

2.1 crynhoi'r cwricwlwm gwaith chwarae

2.2 crynhoi'r cylch chwarae llawn fel y'i mynegir o fewn llenyddiaeth berthnasol

2.3 esbonio hyblygrwydd cyfansawdd a'i berthynas â rhannau rhydd

2.4 crynhoi dull gweithiwr chwarae o **ymyrryd**

2.5 esbonio sut mae **mathau o chwarae'n** cael eu defnyddio mewn ymarfer gwaith chwarae

---

## Canlyniad dysgu

Bydd y dysgwr yn:

3. gallu dangos sut i gefnogi'r broses chwarae

## Meini prawf asesu

Mae'r dysgwr yn gallu:

3.1 cynnal asesiad dynamig o risg a mantais
3.2 myfyrio ar eu defnydd eu hunain o'r cwricwlwm gwaith chwarae i ddatblygu amgylchedd gwaith chwarae
3.3 gwerthuso **gwahanol** ffyrdd y mae gweithiwr chwarae yn nodi anghenion a dewisiadau chwarae plant

---

## Canlyniad dysgu

Bydd y dysgwr yn:

4. gallu myfyrio ar eu harferion eu hunain

## Meini prawf asesu

Mae'r dysgwr yn gallu:

4.1 defnyddio model o fyfyrio i werthuso eu harfer gwaith chwarae eu hunain o ran cylch chwarae
4.2 myfyrio ar eu defnydd eu hunain o'r arddulliau ymyrryd priodol o safbwynt gwaith chwarae
4.3 adolygu eu harfer eu hunain o gynnal asesiad deinamig risg a mantais
4.4 dadansoddi effaith addasiadau i'w harferion eu hunain mewn ymateb i anghenion a dewisiadau chwarae plant

# Uned 301 Gwaith chwarae wrth ymarfer

Gwybodaeth Ategol

## *Arweiniad*

**Cyflwyno ac asesu**

Mae'r term 'plant' yn cwmpasu pob plentyn a pherson ifanc rhwng 0 a 18 oed yn unol â deddfwriaeth genedlaethol a rhyngwladol.

2.2 Cynnwys y termau – ysfa chwarae, metalwd (blaen giwiau), ciw chwarae, adenillion chwarae, ffrâm chwarae, llif, difodiant, oedoli, cam-chwarae, cynhwysiad. Dylai dysgwyr gyfeirio at bapur Colorado a Pete King, Y Cylch Chwarae

2.4 Dylai **ymyrraeth** gysylltu ag Egwyddor Gwaith Chwarae 8 a'r arddulliau ymyrryd priodol (Hawliad Cyntaf, Bob Hughes) neu Lefelau Ymyrraeth (Papur Colorado)

2.5 16 **math o chwarae**, Bob Hughes fel y'u rhestrir yn Dyfaliad a Phosibiliadau a Hawliad Cyntaf

3.1 Dysgwr i ddarparu asesiad risg a mantais ysgrifenedig, dysgwyr i gwmpasu asesiad o fanteision, risgiau, mesurau rheoli, cyd-destun perthnasol. Gall dysgwyr gyfeirio at enghraifft o dempled ar y Fforwm Diogelwch Chwarae.

3.3 Gall tair ffordd **wahanol** neu fwy gynnwys:

- arsylwadau chwarae
- ystod o fathau o chwarae
- lefel cyfranogiad (a nodir yn CCUHP, Erthygl 12)
- gwrando ac ymateb i sgwrs a gychwynnwyd gan y plentyn
- ystyried amgylcheddau chwarae
- adolygu gwaith papur (ffurflenni cofrestru ac ati)
- sgyrsiau gyda rhieni / gofalwyr

**Mathau o dystiolaeth**

Rhaid i'r dystiolaeth gynnwys:

- Cyfrifon myfyriol
- Arsylwi plant wrth ymarfer
- Cynhyrchion gwaith (gan gynnwys cofnodion sy'n nodi anghenion a dewisiadau chwarae plant)

**Mapio SGC**

SKAPW50 - Creu lleoliadau sy'n cefnogi chwarae hunanarweiniol a ddewisir yn rhydd

SKAPW51 - Paratoi a hwyluso cyfleoedd chwarae penodol

SKAPW52 - Cyfrannu at gynnal asesiadau risg yn y gwaith chwarae

SKAPW53 - Cyfrannu at iechyd, diogelwch a lles plant a phobl ifanc yn y lleoliad gwaith chwarae

SKAPW57 - Cyfrannu at gefnogi plant a phobl ifanc anabl yn y lleoliad gwaith chwarae

SKAPW61 - Gwerthuso i wella eich ymarfer eich hun a gwaith eich tîm gwaith chwarae

SKAPW64 (SCDHSC0312) - Cefnogi plant a phobl ifanc i ddatblygu hunaniaeth gadarnhaol a lles emosiynol

SKAPW81 - Gweithio o fewn y cwricwlwm gwaith chwarae

SKAPW82 - Dadansoddi a chefnogi chwarae hunanarweiniol yn unol â damcaniaethau gwaith chwarae cyfredol

# Uned 302 Gwaith chwarae yn y cyd-destun ehangach

| | |
|---|---|
| **Lefel:** | 3 |
| **Gwerth credyd:** | 3 |
| **ODDA:** | 15 |
| **Nod:** | Mae'r uned hon yn archwilio gwaith chwarae yng nghyd-destun ehangach sut i ymgysylltu ag eraill am bwysigrwydd chwarae a gwaith chwarae. Mae'n ymdrin â'r dull gwaith chwarae sefydliadol o ran chwarae plant, rôl eirioli dros chwarae a gallu cyfleu hyn i eraill a deall diogelu plant mewn cyd-destun gwaith chwarae. |
| **Math o asesiad:** | Portffolio |

---

## Canlyniad dysgu:

Bydd y dysgwr yn:

1. gallu adolygu dulliau sefydliadol o chwarae

## Meini prawf asesu

Mae'r dysgwr yn gallu:

1.1 gwerthuso ar ddull ei sefydliad ei hun o weithio gyda phlant gan ddefnyddio safbwynt gwaith chwarae

1.2 gwerthuso polisi chwarae sefydliadol mewn perthynas â grymuso hawl plentyn i chwarae

1.3 myfyrio ar sut mae **dulliau blaenorol** o weithio gyda phlant yn wahanol i'r dull gwaith chwarae

---

## Canlyniad dysgu

Bydd y dysgwr yn:

2. deall rôl eiriolaeth wrth gefnogi chwarae plant

## Meini prawf asesu

Mae'r dysgwr yn gallu:

2.1 esbonio'r term eiriolaeth yng nghyd-destun chwarae a gwaith chwarae

2.2 myfyrio ar ei eiriolaeth ei hun i **eraill** ar gyfer chwarae plant

## Canlyniad dysgu

Bydd y dysgwr yn:

3. gallu cyfleu gwerth gwaith chwarae i eraill

## Meini prawf asesu

Mae'r dysgwr yn gallu:

3.1 eirioli i **eraill** werth ymarfer gwaith chwarae yn eu **lleoliad** eu hunain

3.2 myfyrio ar eu cyfathrebu eu hunain ag **eraill** o werth ymarfer gwaith chwarae yn eu lleoliad eu hunain

---

## Canlyniad dysgu

Bydd y dysgwr yn:

4. deall diogelu mewn cyd-destun gwaith chwarae

## Meini prawf asesu

Mae'r dysgwr yn gallu:

4.1 esbonio sut mae **ffactorau risg** yn amrywio yn dibynnu ar oedran a datblygiad y plant

4.2 disgrifio sut mae gwaith chwarae yn cefnogi plant i:

- a. teimlo'n gysylltiedig â phobl a lle
- b. teimlo'n ddiogel
- c. cadw eu hunain yn ddiogel
- ch. arfer dewis a rheolaeth
- d. adeiladu gwytnwch drwy chwarae
- dd. adeiladu hunan-barch
- e. gwella lles
- f. cyfathrebu drwy chwarae

4.3 crynhoi eu rôl eu hunain wrth weithredu gweithdrefnau diogelu

# Uned 302 Gwaith chwarae yn y cyd-destun ehangach

Gwybodaeth Ategol

## *Arweiniad*

Mae'r term 'plant' yn cwmpasu pob plentyn a pherson ifanc rhwng 0 a 18 oed yn unol â deddfwriaeth genedlaethol a rhyngwladol.

**Cyflwyno ac asesu**

1.2 Dylai'r gwerthusiad gynnwys cyfeiriad at:

- CCUHP
- Sylw Cyffredinol 17
- Egwyddorion Gwaith Chwarae

1.3 **Dulliau blaenorol.** Cymwysterau a phrofiadau eraill wrth weithio gyda phlant

Dylai myfyrio ystyried rhai o'r canlynol ond mwy nag un:

- Rôl yr oedolyn
- Cynllunio
- Cyfranogiad plant
- Canlyniadau
- Arsylwadau
- Rheoli risg
- Pŵer a rheolaeth

2.2 **Eraill**. Er enghraifft:

- Cydweithwyr
- Rhieni a / neu ofalwyr
- Cymuned ehangach
- Gweithwyr proffesiynol eraill

3.1 **Lleoliad**. Er enghraifft, y man lle mae ymarfer gwaith chwarae yn digwydd

3.2 Gallai **eraill** gynnwys cydweithwyr, rhieni a / neu ofalwyr, gweithwyr proffesiynol, cyllidwyr, penderfynwyr allanol, arolygwyr

4.1 Gallai **ffactorau risg** gynnwys amgylchedd teuluol, cymuned, grŵp cyfoedion, mynediad at dechnoleg, daearyddiaeth, mynediad at wasanaethau

**Mathau o dystiolaeth**

Rhaid i'r dystiolaeth gynnwys:

- Adroddiadau myfyriol

**Mapio SGC**

SKAPW54
Nodi pryderon diogelu sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc yn y lleoliad gwaith chwarae

SKAPW55
Cyfrannu at ddatblygu a chynnal perthynas â phlant, pobl ifanc ac eraill yn y lleoliad gwaith chwarae

SKAPW56
Cyfrannu at ddatblygu a chynnal cysylltiadau a phartneriaethau yn y lleoliad gwaith chwarae

SKAPW63 - Sefydlu a hwyluso chwarae mewn lleoliad gwaith chwarae heb ei deilwra

SKAPW67 - Cyfrannu at redeg lleoliad gwaith chwarae

SKAPW69 - Cyfrannu at gyfathrebu a hyrwyddo gwaith sy'n cael ei wneud yn eich lleoliad gwaith chwarae

SKAPW70 - Cyfrannu at weithredu polisïau a gweithdrefnau i ddiogelu plant a phobl ifanc yn y lleoliad gwaith chwarae

SKAPW75 - Datblygu ac adolygu polisïau a gweithdrefnau sy'n ymwneud â hawliau plant a phobl ifanc

SKAPW78 - Cyfathrebu a hyrwyddo'r gwaith sy'n cael ei wneud yn eich lleoliad gwaith chwarae

SKAPW79 - Gweithio gydag eraill y tu allan i'ch lleoliad gwaith chwarae

# Atodiad 1 Ffynonellau gwybodaeth gyffredinol

Mae'r dogfennau canlynol yn cynnwys gwybodaeth hanfodol ar gyfer canolfannau sy'n darparu cymwysterau City & Guilds. Dylid cyfeirio atynt ar y cyd â'r llawlyfr hwn. I lawrlwytho'r dogfennau ac i ddod o hyd i ddogfennau defnyddiol eraill, ewch i **Lyfrgell Dogfennau'r Ganolfan** ar **www.cityandguilds.com**.

***Safonau Sicrhau Ansawdd: Llawlyfr y Ganolfan***

Mae'r ddogfen hon ar gyfer pob canolfan gymeradwy ac mae'n rhoi arweiniad i gefnogi'r gwaith o gyflwyno ein cymwysterau. Mae'n cynnwys gwybodaeth am

- Meini prawf sicrhau ansawdd y ganolfan a gweithgareddau monitro
- Systemau gweinyddu ac asesu
- Timau cefnogi sy'n wynebu'r ganolfan yn City & Guilds / ILM
- Rolau a chyfrifoldebau sicrhau ansawdd y Ganolfan.

Dylid defnyddio Llawlyfr y Ganolfan i sicrhau cydymffurfiaeth â thelerau ac amodau Contract y Ganolfan.

***Safonau Sicrhau Ansawdd: Asesiad o'r Ganolfan***

Mae'r ddogfen hon yn nodi'r gofynion sicrhau ansawdd cyffredin gofynnol ar gyfer ein cymwysterau rheoleiddiedig ac nas rheoleiddir sy'n cynnwys cydrannau a asesir gan y ganolfan. Bydd canllawiau penodol hefyd yn cael eu cynnwys mewn llawlyfrau cymwysterau perthnasol a/neu ddogfennau asesu.

Mae'n ymgorffori ein disgwyliadau ar gyfer sicrhau ansawdd mewnol y ganolfan a'r dulliau sicrhau ansawdd allanol a ddefnyddiwn i sicrhau bod safonau asesu'n cael eu bodloni a'u cynnal. Mae hefyd yn manylu ar yr ystod o sancsiynau y gellir eu rhoi ar waith pan nad yw canolfannau'n cydymffurfio â'n gofynion, neu gamau a gymerir i gysoni marcio/asesu canolfannau â'r safonau gofynnol. Yn ogystal, mae'n darparu canllawiau manwl ar weinyddu asesiadau canolfannau yn ddiogel ac yn ddilys.

***Trefniadau mynediad - Pryd a sut mae angen gwneud ceisiadau i City & Guilds***
Mae’r rhain yn rhoi manylion llawn am y trefniadau y gellir eu gwneud i hwyluso mynediad i asesiadau a chymwysterau ar gyfer ymgeiswyr sy'n gymwys i gael addasiadau mewn asesiadau.

Mae adran **hafan y ganolfan** ar wefan City & Guilds hefyd yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol am bethau fel:

- **Walled Garden**: sut i gofrestru ac ardystio ymgeiswyr ar-lein
- **Digwyddiadau**: dyddiadau a gwybodaeth am ddigwyddiadau diweddaraf y Ganolfan
- **Asesiad ar-lein**: sut i gofrestru ar gyfer e-asesiadau.

## *Cysylltiadau defnyddiol*
Ewch i: **Cysylltwch â ni | City & Guilds (cityandguilds.com)**

## Ynglŷn â City & Guilds

Fel prif sefydliad addysg alwedigaethol y DU, mae City & Guilds yn arwain y chwyldro talent drwy ysbrydoli pobl i ddatgloi eu potensial a datblygu eu sgiliau. Rydym yn cynnig dros 500 o gymwysterau ar draws 28 o ddiwydiannau drwy 8500 o ganolfannau ledled y byd ac yn dyfarnu tua dwy filiwn o dystysgrifau bob blwyddyn. Mae City & Guilds yn cael ei gydnabod a'i barchu gan gyflogwyr ledled y byd fel arwydd o ansawdd a hyfforddiant eithriadol.

## Grŵp City &guilds

Ein gweledigaeth yw byd lle mae gan bawb y sgiliau a'r cyfleoedd i lwyddo. Rydym yn cefnogi dros 4 miliwn o bobl bob blwyddyn i ddatblygu sgiliau sy'n eu helpu i gael swydd, datblygu ar y swydd honno a pharatoi ar gyfer eu swydd nesaf. Fel elusen, rydym yn falch bod popeth a wnawn yn canolbwyntio ar gyflawni'r diben hwn. Boed hynny drwy ddarparu rhaglenni dysgu seiliedig ar waith sy'n adeiladu cymhwysedd, darparu llwybrau hyblyg sy'n cefnogi cyflogadwyedd gydol oes neu drwy fentrau ariannu City & Guilds Foundation sy'n helpu i ddileu rhwystrau i waith a dysgu.


## Hawlfraint

Mae cynnwys y ddogfen hon, oni nodir yn wahanol, yn © The City and Guilds of London Institute ac ni ellir ei chopïo, ei hatgynhyrchu na'i dosbarthu heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw. Fodd bynnag, gall canolfannau City & Guilds cymeradwy ac ymgeiswyr sy'n astudio ar gyfer cymwysterau City & Guilds lungopïo'r ddogfen hon yn rhad ac am ddim a/neu gynnwys fersiwn PDF ohoni ar fewnrwyd y ganolfan ar yr amodau canlynol:

- gall staff y ganolfan gopïo'r deunydd at ddiben addysgu ymgeiswyr sy'n gweithio tuag at gymhwyster City & Guilds yn unig, neu at ddibenion gweinyddu mewnol
- gall ymgeiswyr gopïo'r deunydd at eu defnydd eu hunain yn unig wrth weithio tuag at gymhwyster City & Guilds

Mae'r Amodau Copïo Safonol (gweler gwefan City & Guilds) hefyd yn berthnasol.



Cyhoeddwyd gan City & Guilds, elusen gofrestredig a sefydlwyd i hyrwyddo addysg a hyfforddiant.



**Giltspur House**
**5-6 Giltspur Street**
**Llundain EC1A 9DE**
**www.cityandguilds.com**